# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 10-09 (p1) Atodiad B: 2 Ebrill 2009**

## Adolygiad Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes A Sgiliau Blaenorol O Anghenion Addysgol Ychwanegol Rhan 3 - Trosglwyddo: Y Cynnydd Diweddaraf.

Ym mis Mawrth 2007 fe roddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar y pryd ymateb rhagarweiniol i Adolygiad y Pwyllgor Addysgu, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau blaenorol o Anghenion Addysgol Ychwanegol Rhan 3 - Trosglwyddo (Mawrth 2007).

Mae'r canlynol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud i fodloni'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ac mae wedi'i osod yng nghyd-destun ymrwymiad parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru drwy sicrhau bod llunio polisi a chyflenwi gwasanaethau'n canolbwyntio'n gadarn ar anghenion unigolion.

### Cefndir

Adeg heriol i'r bobl ifanc a'u rhieni yw'r trosglwyddo sy'n digwydd wrth i'r bobl ifanc sy'n symud o fewn a rhwng addysg a chyflogaeth Pan fydd hyn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddolwn y gall y trosglwyddo fod yn arbennig o anodd.

Roedd yn glir o'r dystiolaeth a ddaeth i law gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau blaenorol, a chan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal fel rhan o'i adolygiad o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc anabl (Ionawr 2007), fod llawer o le i wella'r gwasanaethau i'r bobl ifanc sy'n trosglwyddo i fod yn oedolion, a hynny er gwaethaf bodolaeth cryn dipyn o ganllawiau ac enghreifftiau o arfer da.

Sylweddolwn ei bod yn bwysig i ddyfodol yr unigolion ac i'r economi gyfan nad yw talentau unigol yn mynd yn ddifancoll yn sgil cymorth aneffeithiol yn ystod cyfnodau allweddol fel trosglwyddo o ysgol i ddysgu pellach, o hyfforddiant i waith. Felly, rydym wedi bod yn cydweithio ag adrannau eraill yn y Cynulliad ac yn llywodraeth y DU, rhanddeiliaid ac eraill i sicrhau cynnydd o ran trosglwyddo, yn arbennig yn y meysydd hynny a nodwyd gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ym mis Hydref 2007 sefydlwyd Grwp Cyfeirio Strategol Allanol Trosglwyddo (sy'n cynnwys cynrychiolwyr pobl ifanc ag anawsterau dysgu, Addysg, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, addysg bellach ac uwch, sefydliadau cyflogwyr yn ogystal â Gyrfa Cymru a Sgil Cymru). Bwriad y Grwp oedd ystyried sut orau i ddatblygu ymhellach argymhellion y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac argymhellion y Pwyllgor Cyfle Cyfartal sy'n ymwneud â throsglwyddo.

Mae'r Grwp yn gwneud cynnydd da ac yn cyfarfod yn rheolaidd.

Ffurfiwyd pedwar is-grwp o'r prif grwp, sy'n ystyried agweddau allweddol ar y canlynol:

Cynllunio'r Trosglwyddo

Gweithio Allweddol

Addysg a Hyfforddiant

Cyflogaeth a Sgiliau / Adnoddau

Mae pob grwp wedi dyfeisio cynllun gweithredu. Mae pob un o'r cynlluniau hyn yn ymdrin ag argymhellion y ddau Bwyllgor ar drosglwyddo ac yn nodi camau tuag at sicrhau gwelliannau o ran darparu'r gwasanaethau.

### Cynllunio'r Trosglwyddo

Efallai mai prif ffocws argymhellion y Pwyllgor yw anghenion penodol pobl ifanc wrth iddynt adael addysg uwchradd a symud i addysg bellach neu uwch, hyfforddiant neu waith. Rwy'n cytuno'n llwyr â barn y Pwyllgor mai yma, wrth gynllunio cymorth a darparu gwasanaethau, y mae'n rhaid inni sicrhau y gall pob person ifanc wneud y gorau o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Drwy wneud hynny, byddwn yn gwneud yn siwr eu bod yn y sefyllfa orau i ddod o hyd i waith ystyrlon ac y gallant fyw bywydau mwy annibynnol a bodlon.

Ar hyn o bryd mae llawer gormod o ganllawiau sy'n aml yn ddryslyd ac sy'n nodi llawer o ofynion er mwyn sicrhau trosglwyddo didrafferth rhwng ac ar draws cyfnodau i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA) - yn benodol Cod Ymarfer AAA Cymru, y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth a'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd. Ynghyd â'r rhain gwn fod llawer o awdurdodau wedi datblygu eu canllawiau cynllunio a'u dulliau eu hunain sy'n gweithio'n dda.

Yn wir, fel rhan o'r NSF, mae'n ofynnol i'r holl asiantaethau lleol asesu, gan ddefnyddio'r Offer Hunan-archwilio Hunan-asesu (SAAT), i ba raddau y maent yn cyflawni yn erbyn pob cam NSF allweddol, a bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc wrth iddynt bennu eu blaenoriaethau. Ar hyn o bryd mae'r SAAT yn cadw tair blynedd o wybodaeth gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG, byrddau lleol diogelu plant, Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru, Comisiwn Iechyd Cymru a

Llywodraeth Cynulliad Cymru. Disgwylir archwiliad 2008/09 erbyn 31 Mawrth 2009.

Mae data o'r SAAT yn dangos gwelliant ym mhob un o'r camau yn y bennod ar Blant Anabl yn yr NSF rhwng 2006/07 a 2007/08.

Yn fwy cyffredinol hefyd, bydd aelodau'n ymwybodol fod Cod Ymarfer AAA Cymru'n cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o asesiad statudol, a rhoddwyd ystyriaeth i ymgynghoriad ar ddatganiadau a materion sy'n ymwneud â throsglwyddo yn ystod y cyfnod cyn ymgynghori â'r rhieni. Ers hynny, cymeradwywyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg a Hyfforddiant) 2008 gan y Cyfrin Gyngor (Ebrill 2008). Bellach gall y Cynulliad wneud newidiadau, drwy Fesur Cynulliad, i'r broses asesu statudol yng Nghymru.

Cyn gwneud unrhyw welliannau i ddeddfwriaeth sylfaenol, bydd y swyddogion wedi ymgynghori'n eang ar yr opsiynau ar gyfer diwygio'r fframwaith asesu statudol yng Nghymru. Yn ddiamau bydd y gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu'r diwygiad hwn ymhellach yn cynnwys holl gamau allweddol y trosglwyddo i'r holl blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Er gwaethaf yr ysgogwyr pwysig hyn, rwy'n ymwybodol bod diffyg cydweithredu rhwng asiantaethau. Yn rhy aml o lawer, rwy'n dal i glywed, weithiau'n uniongyrchol gan y bobl ifanc eu hunain, fod angen mwy o wybodaeth arnynt, yn arbennig o ran y gwasanaethau a'r budd-daliadau sydd ar gael, ac, yn fwy cyffredinol, eu bod yn teimlo nad oes cymorth ar gael iddynt wrth gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

Dyna pam y bu imi gytuno'n frwd ag argymhellion y Pwyllgor bod angen adolygu'r canllawiau a'r casgliad data presennol yn gyffredinol gyda'r nod yn y pen draw o ddwyn y cyfan ynghyd mewn ffordd symlach, gliriach. Yn ddealledig yn hyn mae'r cynsail fod yn rhaid i'r broses o adolygu trosglwyddo ganolbwyntio ar y person, a bod angen i bob parti, yn benodol rhieni a gofalwyr, gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt ymlaen llaw er mwyn manteisio i'r eithaf ar y broses o adolygu trosglwyddiad a bod yr holl asiantaethau perthnasol yn gysylltiedig â chynllunio gwasanaethau.

Fel y nodwyd uchod, ym mis Hydref 2007 sefydlwyd Grwp Cyfeirio Allanol ar Drosglwyddiad o dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn benodol i ddatblygu ymhellach argymhellion y Pwyllgor Addysg, Llywodraeth Leol a Sgiliau. Mae un o'i dri is-grwp (yr Is-grwp Cynllunio Trosglwyddo) yn adolygu amrywiol haenau'r canllawiau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno eu polisïau trosglwyddo a meini prawf cymhwysedd drwy'r Grwp Rheolwyr Rhwydwaith Anabledd. Mae aelodau eraill yn gweithio ar ddatblygu llawlyfr trosglwyddo (yn seiliedig ar fersiwn a ddatblygwyd ar y cyd gan ymarferwyr a rhieni yn AALl Sir Fynwy) a fydd yn cynnwys enghreifftiau o arfer gorau. Y dyddiad cau arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn yw Ebrill 2009.

Mae gwaith pwysig arall sy'n cael ei gyflawni gan yr is-grwp hwn yn cynnwys datblygu templed ar gyfer cynllun trosglwyddo amlasiantaeth y gellir ei ddefnyddio fel esiampl o arfer da ledled Cymru. Ar hyn o bryd rydym yn ymwybodol o faterion cydweddoldeb mewn perthynas â chasglu a rhannu data o ran y Broses Asesu Unedig a'r System Integredig ar gyfer Plant.

Mae'r is-grwp hefyd yn ystyried datblygu proses addas i sicrhau dymuniadau a dyheadau'r person ifanc drwy eiriolaeth, proses feddalwedd a dulliau eraill. Rhaid i bobl ifanc fod yn gysylltiedig â'r gwaith o lunio eu cynllun gweithredu trosglwyddo eu hunain a rhaid i hyn ddeillio o ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person.

Sefydlwyd fersiwn gwahaniaethol o'r wefan ryngweithiol o'r enw 'Fy Nyfodol' ar gyfer plant anabl a phlant ag AAA gan Gyrfa Cymru. Mae'r wefan yn cynnwys offer rhyngweithiol ar gynllunio trosglwyddo ac yn cynnwys gwneud penderfyniadau a datblygu hunanymwybyddiaeth ynghylch pob agwedd ar ddewisiadau ôl-16. Mae'r rhain yn cynnwys diddordebau / sgiliau / syniadau ar gyfer y dyfodol a'r hyn sydd angen i bobl eraill ei wybod am y person ifanc. Gall pobl ifanc sy'n defnyddio'r wefan ddewis adrannau yr hoffent eu cyhoeddi a'r nod yw y bydd yn disodli'r ffeil cynnydd a'r cofnod o gyflawniadau. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth i rieni y gallant ei defnyddio cyn mynd i gyfarfod cynllunio trosglwyddo.

O ran rhannu data, mater a godwyd gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn ddiweddar dyfarnwyd contract i Atkins Management Consultants i ymgymryd ag astudiaeth gwmpasu a fydd yn archwilio'r opsiynau ar gael i wella rhannu gwybodaeth a rheoli data sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan Atkins brofiad o weithio gyda ContactPoint yn Lloegr, gwybodaeth helaeth am y sector cyhoeddus yng Nghymru a dull cydweithredol o weithredu sy'n canolbwyntio ar y rhanddeiliad.

Mae tîm ymgynghori Atkins yn awyddus i gysylltu â chymaint o bobl berthnasol â phosibl er mwyn deall y prosesau, polisïau a'r heriau sy'n wynebu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda gwybodaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Eu tasg yw deall a gwerthuso meysydd o arfer gorau, cyfleoedd i gyflawni gwelliant a'r rhwystrau cyfredol i wella rhannu gwybodaeth.

Bydd y tîm yn rhannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd o bob cwr o'r DU i wella dealltwriaeth, heb ragdybio bod yr un atebion cyffredinol yn berthnasol yma yng Nghymru. Eu cylch gwaith yw gweithio gyda'r wybodaeth a'r safbwyntiau a ddarparwyd gan arweinwyr polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, rhanddeiliaid a phartneriaid lleol drwy gydweithredu a chynnal deialog strwythuredig â ffocws iddi. Felly bydd cyfnod o ymgynghori, ymgysylltu a dadansoddi'n agored ar y cyd i bennu dulliau ymarferol o reoli gwybodaeth er mwyn gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau a sicrhau canlyniadau positif i blant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn falch iawn i fod yn gweithio gyda'r Grwp 'Transitions in Action' - cynghrair o sefydliadau sy'n gweithio i hwyluso'r cyfnod pan fydd person ifanc anabl yn symud tuag at fod yn oedolyn. Y nod yw hybu arfer da ar draws gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg a'r sector gwirfoddol.

Ar 29 Tachwedd 2007 noddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhadledd amlasiantaeth a oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc anabl yn trosglwyddo i fod yn oedolion. Nod y Gynhadledd, a drefnwyd gan y Grwp 'Transitions in Action', oedd gwella'r cynllunio a'r ddarpariaeth yn y gwasanaethau trosglwyddo yn y dyfodol. Roedd y bore yng ngofal pobl ifanc anabl a dynnodd sylw at y sefyllfa gyfredol gan awgrymu sut y gellir ei gwella. Roedd y prynhawn yn cynnwys gweithdai a oedd yn arddangos enghreifftiau o arfer da wrth

Drosglwyddo. Roedd y gynhadledd yn llwyddiant ysgubol, yn bennaf oherwydd y mewnbwn gan y bobl ifanc eu hunain. Dangosodd yn y ffordd gliriaf bosibl bwysigrwydd cyfraniad y bobl ifanc i'r broses gyfan o gynllunio trosglwyddo.

O ran eiriolaeth, byddwch yn ymwybodol fod Llywodraeth Cynulliad Cymru y llynedd wedi cyhoeddi, ar ôl ymgynghori, ei gynigion ar gyfer datblygu gwasanaethau eiriolaeth i blant. Rydym wedi gwrando ar y negeseuon o'r ymgynghoriad hwnnw ac yn bwriadu sicrhau bod eiriolaeth ar gael i bob plentyn yn gyffredinol. Y pedair elfen allweddol fydd: Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol sy'n cynnig un pwynt cyswllt ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, a fydd yn dod yn weithredol yn 2009-10; gwasanaeth eirioli arbenigol integredig rhanbarthol/lleol a gomisiynwyd drwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc; Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol (a fydd yn cynnwys pobl ifanc); ac Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn Llywodraeth y Cynulliad.

Mae gwaith pwysig arall yn cynnwys Hawl y Plentyn i Apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Peter Clarke, diweddar Gomisiynydd Plant Cymru, wnaeth gynnig gyntaf y dylai plant ag anghenion addysgol arbennig gael yr hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi'r egwyddor y dylid rhoi'r hawl i apelio i blant mewn perthynas â'r sail bresennol y gall rhiant wneud apêl o dan Ddeddf Addysg 1996.

Eleni cyhoeddwyd papur mewn dau ran o dan y teitl Llais a Dewis ar gyfer ymgynghoriad. Roedd rhan gyntaf Llais a Dewis, a gyhoeddwyd rhwng Mai a Hydref 2008, yn archwilio'r materion a oedd yn ymwneud â'r hawl hwn i apelio a'r cwestiynau allweddol sy'n deillio o hyn. Cyhoeddwyd Llais a Dewis Rhan Dau rhwng Medi a Hydref 2008 ac roedd yn ymwneud ag ymestyn yr hawl i blant eu hunain wneud honiadau mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd i TAAAC. Cynhaliwyd dau weithdy penodol i ymgynghori â'r cyhoedd hefyd. Er mwyn cael safbwyntiau plant ar gyfer y cynigion hyn, cyhoeddwyd y ddwy ddogfen ymgynghori hefyd mewn fersiwn sy'n addas i blant a phobl ifanc a chynhaliwyd cyfres o weithdai wedi'u hwyluso mewn ysgolion ledled Cymru.

### Gweithio Allweddol

Hyd yn oed gyda'r offer cynllunio gorau ar gael iddynt, rwy'n bendant o'r farn bod angen cymorth a chefnogaeth ar y bobl ifanc a'u teuluoedd o hyd i ddefnyddio'r deunyddiau sydd ar gael. Yn bwysicach fyth, mae angen iddynt wybod bod person go iawn yno i'w cefnogi pryd bynnag y bydd angen hynny. Dyna pam fy mod yn cytuno'n frwd â phrif argymhellion y Pwyllgor ar recriwtio rhagor o weithwyr allweddol.

Yn wir, er mwyn hwyluso hyn a sefydlu fframwaith neu ganllawiau i'w ategu, sef cyfrifoldeb proffesiynol a hyfforddiant proffesiynol priodol, cyhoeddais ddechrau'r flwyddyn becyn cyllid sy'n gyfanswm o £1.5m am y cyfnod 2009/10 tan 2011/12. Bwriadwyd y cyllid hwn yn benodol i gefnogi datblygiad prosiectau peilot i ddatblygu gweithio allweddol ledled Cymru.

Cafwyd cynigion amlasiantaeth gan un deg saith o AALlau i gyd. Ar ôl asesiad gofalus dyrannwyd cyllid i Wynedd, Ynys Môn, Ceredigion, Sir Benfro a Sir Fynwy (â chynnig yn cwmpasu hen Ardal Gwent). Rydym yn cydweithio'n agos â'r sector gwirfoddol ac yn benodol â Rhwydwaith Cydlynu Gofal Dros y DU (CCNUK) (y prif sefydliad rhwydweithio sy'n hybu ac yn cefnogi gwaith allweddol i blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yng Nghymru a Lloegr) i'n helpu yn hyn o beth.

Rwyf eisoes wedi dyrannu £200k i CCNUK sy'n cydweithio'n agos â'r safleoedd peilot, ac yn wir ag AALlau eraill ledled Cymru sy'n dymuno datblygu gweithio allweddol. Fel rhan o'i gylch gwaith, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill, mae CCNUK eisoes wedi cychwyn datblygu fframwaith/canllawiau trosglwyddo strategol i sicrhau bod gan weithwyr allweddol trosglwyddo rôl sydd wedi'i diffinio'n glir o ran strwythur, amodau a thelerau - gan gynnwys cyflog, cymorth proffesiynol a goruchwylio a system o gyfrifoldeb, rhaglen datblygu proffesiynol barhaus/hyfforddiant, a chanllawiau i hyfforddi gweithwyr allweddol trosglwyddo.

Ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf cynhelir seminar ar y cyd gan CCNUK a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r digwyddiad ar agor i bob asiantaeth a bydd yn canolbwyntio ar egwyddorion darparu gwasanaeth gweithwyr allweddol trosglwyddo'n ddidrafferth i gyfnod oedolyn, gyda phwyslais ar gynllunio sy'n canolbwyntio ar y person a'r rhyngwyneb rhwng prosesau asesu'r plant (Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd) ac oedolion (Asesiad Unedig) yn ystod y cyfnod trosglwyddo 14+.

Bydd hefyd yn amlinellu sut y gall polisi a deddfwriaeth gwasanaethau plant ac oedolion gael ei ryddhau i ddiwallu anghenion pobl ifanc anabl, yn ogystal ag edrych ar ofynion hyfforddi/datblygiad gweithlu gweithwyr allweddol trosglwyddo a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio â phobl ifanc anabl.

### Addysg a Hyfforddiant

Gall addysg a hyfforddiant ôl-ysgol wneud gwahaniaeth arwyddocaol i ddyfodol dysgwr fel oedolyn ac mae'n helpu i lunio'r cyfraniad y gallant ei wneud i fywyd Cymru a'r economi.

Er mwyn sicrhau bod manteision darpariaeth ôl-ysgol ar gael i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, mae'n hanfodol fod y ddarpariaeth hon yn cyfateb ag anghenion a dyheadau dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Rwy'n cytuno ag argymhellion y Pwyllgor felly o ran addysg a hyfforddiant.

Mae rhan o'r gwaith o sicrhau cyfatebiaeth rhwng y ddarpariaeth a'r angen unigol yn golygu rhoi asesiad cywir ymlaen llaw i ddarparwyr ôl-ysgol o angen dysgu'r unigolyn. Ymysg datblygiadau cyfredol sy'n anelu at ddiwygio'r broses statudol o asesu a rhoi datganiadau mae datblygu cofnod o'r angen sydd wedi'i asesu'n barhaus. Bydd rôl gyfredol asesiadau Adran 140, a elwir yn Gynlluniau Dysgu a Sgiliau, sy'n ymestyn i ddarpariaeth ôl-ysgol, yn cael ei hystyried fel rhan o'r diwygiadau hyn. Cynhelir yr asesiadau hyn gan Gyrfa Cymru ar ran y Cynulliad ac, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, maent yn nodi'r ddarpariaeth ôl-ysgol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod modd diwallu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr unigol.

Mae dull effeithiol o olrhain sgiliau ac anghenion dysgwyr hefyd yn elfen bwysig o'r cyfateb rhwng y ddarpariaeth a'r angen dysgu unigol, gan ei fod yn caniatáu i ddarparwyr ôl-16 fesur i ba raddau y mae eu darpariaeth yn diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Ers 2008/09 gwnaed gwelliannau i feysydd yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ac yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), fel cam cyntaf tuag at alinio data o amgylch dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen o safbwynt hyn.

Nododd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fod sicrhau bod sgiliau dysgwyr yn cyfateb yn dda i anghenion cyflogwyr yn bwysig er mwyn sicrhau canlyniadau cyflogaeth da i bobl ag anghenion ychwanegol. Mae llwyddo i gael cyfateb rhwng sgiliau ac anghenion yn thema allweddol o strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, sy'n cynnwys nifer o gamau perthnasol. Yng nghyd-destun hyfforddiant seiliedig ar waith, mae'r rhain yn cynnwys gwelliannau i dreialu wrth gyflwyno'r rhaglen Adeiladu Sgiliau sy'n cefnogi pobl dros 16 oed nad ydynt mewn cyflogaeth. Cychwynnwyd ar y gwaith ar y ddau beilot (yn Sir Benfro/Caerfyrddin ac yn Abertawe/Castell-nedd Port Talbot) a byddant yn cynnwys mesurau i wella cydweithrediad, i gefnogi arfer gorau, ac i annog ymateb gan y darparwr i anghenion dysgwyr dan anfantais.

Mae colegau addysg bellach lleol ar gael i'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ddyddiol, ond mewn rhai achosion mae anghenion ychwanegol y dysgwyr yn golygu bod angen addysg bellach breswyl arbenigol arnynt. Darperir y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth arbenigol hon gan sefydliadau annibynnol. Ar hyn o bryd mae APADGOS yn gweithio gydag Estyn i egluro'r broses y mae'n rhaid i golegau preswyl arbenigol annibynnol newydd ei dilyn er mwyn bod yn gymwys am gyllid APADGOS.

Mae'r cymorth ariannol unigol sydd ar gael, yn arbennig y Lwfans Myfyriwr Anabl, yn dylanwadu'n gryf ar nifer y dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynd ymlaen i addysg uwch. Yn 2006/07 daeth Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am gymorth statudol i fyfyrwyr, gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr anabl. Sefydlwyd nifer o fforymau ymgynghorol i ystyried materion sy'n ymwneud â myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn 2007-09 a 2008-09 gwelwyd cynnydd nodedig yn y swm o Lwfans Myfyriwr Anabl ar gael i gynorthwywyr nad ydynt yn rhai meddygol a bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r dull o ddarparu'r Lwfans.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi ymgorffori trosglwyddo i'w Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac yn gweithio i ddod o hyd i rwydweithiau cenedlaethol a all dod â staff priodol ynghyd o fewn sefydliadau addysg uwch a sefydliadau eraill gyda golwg ar wella'r cydgysylltu a rhannu arfer da.

### Yr Iaith Gymraeg

Mae ein hymrwymiad i faterion sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg yn amlwg wrth inni ei hystyried ym mhob agwedd ar bolisi. Rhoddwyd ystyriaeth i'r rhwystrau sy'n wynebu siaradwyr Cymraeg sy'n ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ym mhob cam o'i adolygiad ar AAA. Nododd y Pwyllgor yr angen am welliannau wrth ddarparu deunyddiau, gweithwyr proffesiynol hyfforddedig, canllawiau ac adnoddau ar gyfer y rhai sy'n dymuno cael y ddarpariaeth yn Gymraeg.

Dogfen allweddol i'r perwyl hwn yw adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg ' Cydnabod Angen' sy'n ymwneud â darparu cymorth ychwanegol i siaradwyr Cymraeg sy'n ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r grwp gorchwyl sy'n datblygu'r argymhellion hyn ymhellach yn cynghori ar agweddau ar yr iaith Gymraeg o ran darpariaeth ym mhob sector cyn ac ôl-ysgol.

Mae meysydd datblygu sy'n ymwneud â deunyddiau a hyfforddiant yn cynnwys cynhyrchu modiwl e-ddysgu dwyieithog ar anghenion dysgu ychwanegol i'w cynnwys mewn hyfforddiant athrawon. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd ar gyfer modiwlau e-ddysgu dwyieithog pellach a fydd ar gael i bob sefydliad addysg uwch, athrawon a chynorthwywyr dysgu yng Nghymru.

### Cludiant

Gellir gwastraffu hyd yn oed y ddarpariaeth fwyaf cynhwysol mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysg uwch os na all dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol gael cludiant o'u cartrefi. Nododd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fod angen gwella'r maes hwn. Eleni cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad Ganllawiau anstatudol ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol i awdurdodau lleol sy'n ategu Cod Ymarfer AAA Cymru. Bwriad y canllawiau yw helpu awdurdodau lleol i gynnig cludiant rhwng y cartref a'r ysgol sy'n addas i ddisgyblion AAA.

Mae eglurhad o'r trefniadau cyfredol ynghylch cludiant i ddarpariaeth ôl-ysgol wedi'i gynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol ar Ddatganiadau Polisi Trafnidiaeth i Ddysgwyr rhwng 16-19 2007/08 (Cylchlythyr 05/2007). Mae'r canllawiau'n egluro bod yn rhaid i AALlau, er nad yw'n ofynnol yn y Ddeddf Addysg i ddarparu unrhyw bolisi ar gyfer dysgwyr anabl sy'n hyn nag oedran chweched dosbarth, ragnodi pa drefniadau cludiant y mae modd eu gwneud i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau. Awgryma arfer da y dylai AALlau a'u partneriaid, lle bynnag y bo modd, ddarparu cymorth i ddysgwyr ag AAA nes y byddant o leiaf 21 oed, ac yn ddelfrydol nes y byddant yn 25 oed os oes modd.

### Cyflogaeth a Sgiliau / Adnoddau

### Cyflogaeth a Sgiliau

Cytunaf yn llwyr â honiad y Pwyllgor fod trosglwyddo i gyflogaeth yn arbennig o anodd i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol, a'i bod yn bwysig i gyflogwyr ganolbwyntio'n llai ar yr 'angen ychwanegol' a mwy ar y 'person' a'r gwerth y byddant yn dod i'r sefydliad.

Nid yw materion sy'n ymwneud â chyflogaeth a lles wedi'u datganoli i Lywodraeth y Cynulliad. Yn y materion hyn bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio'n agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod buddiannau cyflogaeth a lles pobl Cymru'n cael eu cynrychioli.

Yn ddiweddar cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau Bapur Gwyrdd o dan y teitl 'No One Written Off - Reforming Welfare to Reward Responsibility'. Yn ei ymateb i'r Papur hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi tynnu sylw at yr angen am gymorth gwell i bobl ifanc mewn cyflogaeth sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cysylltiad Llywodraeth Cynulliad Cymru â Strategaeth Dinasoedd yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n ymwneud â'r defnydd effeithiol o gyllid presennol mewn ardaloedd difreintiedig, yn ffordd arall y byddwn yn sicrhau bod polisïau'r DU yn cefnogi polisïau'r Llywodraeth hon.

Mae cyflogaeth dan gymorth yn ddull positif o sicrhau bod pobl ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael swyddi ystyrlon sy'n rhoi boddhad iddynt ac rwy'n cymeradwyo teyrnged y Pwyllgor i'r gwaith da a wneir gan asiantaethau cyflogi a mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio yn y maes hwn. Yn y maes darpariaeth hwn, mae diffiniad cyffredin ac enghreifftiau o arfer da yn cael eu ceisio, gyda golwg ar integreiddio'r rhain â'n polisïau presennol, lle bo'n bosibl, a'r rheini a gynigiwyd ym Mhapur Gwyrdd yr Adran Gwaith a Phensiynau a grybwyllwyd uchod ar ddiwygio Lles.

Un peth arall allweddol posibl sy'n cyfrannu at gynyddu nifer y dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mewn cyflogaeth ystyrlon yw'r sector dysgu seiliedig ar waith. Mae'r sector hwn, sy'n cynnwys llawer o golegau addysg bellach, yn cynnig ystod eang o hyfforddiant galwedigaethol a sgiliau cyflogadwyedd. Nododd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ar sail tystiolaeth gan Estyn, wendidau yn y ddarpariaeth hon i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, a nododd angen am ganllawiau clir ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt i'r perwyl hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd a fydd yn egluro'r disgwyliadau ar bob darparwr ôl-16 i ddarparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol, fel rhan o'i disgwyliadau mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ar hyn o bryd mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn gweithredu ar gontract tair blynedd. Rhoddir ystyriaeth i gontractau dysgu seiliedig ar waith yn y dyfodol a sut mae y byddai modd atgyfnerthu hyn i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn well.

Mae rôl hanfodol gan Gyrfa Cymru i helpu pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i drosglwyddo'n effeithiol i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Roedd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn cydnabod bod Gyrfa Cymru'n canolbwyntio'n gryf ar hyn o bryd ar gefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i drosglwyddo, ond teimlai y dylai chwarae mwy o rôl wrth gynyddu nifer y dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mewn cyflogaeth. Mynegodd y Pwyllgor ei bryder hefyd nad oedd gan Gyrfa Cymru yr adnodd a'r arbenigedd proffesiynol digonol i fodloni'r galw am ei wasanaethau ar draws y sbectrwm o angen ychwanegol.

Mae adolygiad mewnol o Gyrfa Cymru ar y gweill a fydd yn ystyried sefyllfa Gyrfa Cymru wrth ymateb i ddatblygiadau a hanfodion polisi - yn arbennig y rheini mewn perthynas ag addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, llwybrau dysgu agenda sgiliau a newidiadau a fwriedir eu gwneud i'r system budd-daliadau. Bydd yn gwneud argymhellion ar y gwasanaethau y bydd eu hangen yn y dyfodol yn ogystal â'r ffordd orau o ddarparu adnoddau ar gyfer y gwasanaethau hyn a'u cyflenwi. Wrth wneud hynny, bydd yn ystyried argymhellion y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal a safbwyntiau prif bartneriaid a rhanddeiliaid. Disgwylir y bydd yr adolygiad o Gyrfa Cymru yn cynhyrchu adroddiad o ganfyddiadau ac argymhellion erbyn diwedd Mawrth 2009.

Datblygiadau eraill sy'n berthnasol i ddarparu canllawiau gyrfaoedd i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yw:

datblygiad fersiwn gwahaniaethol gan Gyrfa Cymru o "Fy Nyfodol", adnodd TG ar Gyrfa Cymru Ar-lein sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, eu rhieni a'u hathrawon

codwyd yr angen am roi sylw i hyfforddiant i gynghorwyr gyrfa sy'n helpu pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru gyda'r Sefydliad Cyfarwyddyd Gyrfaoedd fel rhan o'i adolygiad yn y DU o hyfforddiant ac anghenion cymwysterau cynghorwyr gyrfaoedd

mae holl gynghorwyr Gyrfa Cymru wedi cael hyfforddiant penodol sy'n ymwneud â darparu cyngor a chanllawiau ar entrepreneuriaeth, o fewn fframwaith sy'n sicrhau cyfle cyfartal

mae Porth i Gyflogwyr yn cael ei ddatblygu a fydd yn cynnwys cymorth i gyflogwyr a hyfforddiant staff. Defnyddir tystiolaeth o ganlyniadau ac arfer da o brosiectau yn y DU ac Ewrop i hyrwyddo'r manteision i gyflogwyr o gyflogi unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae lleoliadau gwaith yn nodwedd bwysig o drosglwyddo ac yn gysylltiedig â gwaith Gyrfa Cymru. Daeth y Tasglu Ymgysylltu â Chyflogwyr a sefydlwyd fel rhan o adroddiad Llwybrau Dysgu 14-19 ym mis Mawrth 2007 i'r casgliad y gall dod i gysylltiad â'r byd gwaith rhwng 14 ac 19 oed fod o gymorth i gynyddu nifer y bobl anabl mewn cyflogaeth. Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn cael ei ddatblygu ymhellach yng nghyd-destun yr adolygiad o Gyrfa Cymru y cyfeiriwyd ato uchod.

Rydym yn cydnabod bod arbenigedd y sector gwirfoddol, yn enwedig yn ei waith prosiect, yn bwysig i helpu unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol i gael cyflogaeth a thrwy wneud hynny'n helpu i sicrhau amcanion Llywodraeth y Cynulliad yn Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru.

Mae cynllun gweithredu strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y cynllun sector gwirfoddol, sef 'Y Trydydd Dimensiwn', yn disgrifio sut y gall y sector gwirfoddol helpu Llywodraeth y Cynulliad i greu cymunedau cryfach, adeiladu gwell gwasanaethau cyhoeddus a llunio gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer llunio camau gweithredu i Lywodraeth y Cynulliad a fyddai'n cefnogi'r sector gwirfoddol wrth gyflawni'r cylch gwaith hwn.

### Adnoddau

Maes pryder arall i'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau oedd i ba raddau y gallai cyllid fod yn rhwystr i drosglwyddo effeithiol.

Rhoddwyd ystyriaeth i gyllid ar gyfer darparu addysg bellach yn gyffredinol fel rhan o Adolygiad Webb o Addysg Bellach yng Nghymru. Roedd Adroddiad Webb, 'Addewid a Chyflawniad' (Rhagfyr 2007), yn argymell y dylid cronni cyllidebau i ddiwallu anghenion dysgwyr o dan anfantais yn well. Gwnaed y dull hwn yn rhan hanfodol o broses gynllunio Plant a Phobl Ifanc.

Yn 2007/08 dyrannwyd dros £25m i golegau addysg bellach yng Nghymru ar gyfer darpariaeth i ddysgwyr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau. Mae'r pwysoliad cost perthnasol sydd ynghlwm wrth y ddarpariaeth sgiliau byw'n annibynnol i ddysgwyr anabl yn uchel iawn, ac fe'i pennwyd yng nghyd-destun yr holl ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 fel rhan o ddatblygu'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol. Adolygir y cyllid atodol sy'n cefnogi colegau AB i sicrhau bod eu darpariaeth brif ffrwd yn hawdd ei chael yn flynyddol yng ngoleuni'r wybodaeth sy'n codi o ymweliadau archwilio. Ail-edrychir ar y dull dosbarthu ar gyfer cyllid eithriadol, sy'n helpu colegau addysg bellach i ddarparu ar gyfer dysgwyr a fyddai fel arall yn cael eu hariannu i fynychu colegau preswyl arbenigol.

### Casgliad

Mae llawer o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Grwp Cyfeirio Allanol ar Drosglwyddo, ei bedwar is-grwp ac eraill i ymdrin ag argymhellion y Pwyllgor, lawer ohonynt yn delio â materion cymhleth sy'n gofyn am dipyn o waith datrys i sicrhau newid effeithiol. Adlewyrchir yr angen am newid a phwysigrwydd trosglwyddo i ddyfodol pobl anabl ym mrwdfrydedd y rhai sy'n gysylltiedig â datblygu'r gwaith hwn ymhellach.

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi datgan mai 3 Rhagfyr 2008 yw Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl. Hoffwn arbed ar y cyfle hwn i dynnu sylw aelodau'r pwyllgor at gyfres o ddigwyddiadau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cynnal yn y Senedd ac yn Nhy Hywel i nodi'r diwrnod hwn. Hoffwn dynnu sylw at un diwrnod yn benodol, sy'n cael ei drefnu gan Anabledd Dysgu Cymru ac y byddaf yn ei fynychu gyda Phrif Weinidog Cymru. Yn dilyn sesiwn holi ac ateb yng nghwmni pobl ifanc anabl, byddwn yn lansio agenda polisi i blant a phobl anabl. Yn bwysig iawn, am y tro cyntaf, byddwn yn nodi'r hyn rydym wedi'i wneud ac yn bwriadu ei wneud, ar draws portffolios gweinidogol, er mwyn sicrhau cyfle cyfartal a'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc anabl.

### Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Swyddog Cyswllt: Bethan Cowan, Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, est 6082**